# Cymru: cyfarfod dirprwyedig Awst 2024

03/09/2024
Atodlen o benderfyniadau o dan bwerau dirprwyedig Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer Cymru ar 6 Awst 2024.
Penderfyniadau ariannu

## Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

### Longest Yarn Llandudno – Gathering Threads of D-Day

Ymgeisydd: Friends of Mostyn Street

Disgrifiad o'r Prosiect: Prosiect chwe mis i goffau Dydd-D yr Ail Ryfel Byd yn Llandudno trwy gyfres o ddigwyddiadau a fydd yn para am fis gan ddefnyddio arddangosion sydd ar fenthyg ac wedi'u creu gan wirfoddolwyr lleol, llwybr pabïau, arddangosfeydd, ail-greadau a chofnodi atgofion o'r rhyfel yn ddigidol.

Penderfyniad: Dyfarnu Grant o £19,759 (75%)

### Gender First – "See how gender roles have changed and how we can still make changes"

Ymgeisydd: Vale People First Limited

Disgrifiad o'r Prosiect: Prosiect dwy flynedd yw hwn (sy'n rhedeg rhwng 01/07/24 a 01/07/26) sydd â'r nod o ddarparu cyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu gysylltu â deunydd archifau ar rolau rhywedd drwy gydol hanes. Byddai hyn yn galluogi cyfranogwyr i ddeall cyd-destun hanesyddol rolau rhywedd yn y presennol.

Penderfyniad: Dyfarnwyd: Dyfarnu Grant o £40,860 (100%)

### St Mary's Church, Chirk, bell restoration and augmentation project

Ymgeisydd: Cyngor Ardal Weinidogaeth y Santes Fair, Y Waun yn Esgobaeth Llanelwy.

Disgrifiad o'r Prosiect: Mae'r cais yn cyfeirio at adfer cylch o chwe chloch, a gafodd eu castio ym 1814 gan John Rudhall o Gaerloyw a'u hongian yn Eglwys y Santes Fair, Y Waun. Cafodd y chwe chloch eu gwaith cynnal a chadw ac ail-hongian diwethaf yn 1912 gan John Taylor and Co.

Penderfyniad: Dyfarnu Grant o £37,890 (53%)

## Interpretation Gold: Celebrating 50 years of inspiring, engaging and connecting people to drive a more sustainable future in heritage interpretation

Ymgeisydd: Assocation for Heritage Interpretation

Disgrifiad o'r Prosiect: Nod y prosiect 16 mis hwn yw nodi 50 mlynedd ers sefydlu Association for Heritage Interpretation, y corff aelodaeth ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â dehongli.

Penderfyniad: Dyfarnu Grant o £150,000 (81%)